Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
9/2018

DYDDIAD CYHOEDDI:
24/01/2018

# Agweddau Rheini tuag at Reoli Ymddygiad Plant Ifanc - Adroddiad Diwygiedig: Crynodeb Gweithredol

## Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2014-15: Arolwg Ail gyswllt

© Hawlfraint y Goron

ISBN digidol 978-1-78903-472-1

Agweddau Rhieni tuag at Reoli Ymddygiad Plant Ifanc: Crynodeb Gweithredol

Awdur(on) / Cwmni

Dr Steven Donbavand / Wavehill Ltd

Dr Polly Sills-Jones

Adroddiad ymchwil llawn - Agweddau Rhieni tuag at Reoli Ymddygiad Plant Ifanc: Crynodeb Gweithredol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 9/2018.
Ar gael yn: http://gov.wales/statistics-and-research/attitudes-parents-towards-managing-young-childrens-behaviour/?lang=cy

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Hayley Collicott
Adran: Is-Adran Teuluoedd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ebost: Hayley.Collicott@llyw.cymu

**Cyflwyniad**

1.1 Mae'r adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau'r gwaith ymchwil a wnaed efo rhieni plant chwech oed neu iau ynglŷn â'u hagweddau tuag at reoli ymddygiad plant ifanc. Roedd y gwaith maes, a wnaethpwyd yn gynnar ym mis Tachwedd 2015, yn golygu cynnal arolygon dros y ffôn gyda 387 o rieni (neu warcheidwaid) plant ifanc a oedd eisoes wedi cymryd rhan yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15. Gofynnwyd i rieni am eu hagweddau tuag at rianta a chosbi plant yn gorfforol. Roedd yr arolwg hefyd yn gofyn i rieni lle y maent yn cael gafael ar gyngor a'u barn ar newid deddfwriaethol.

1.2 Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio tuag at ei gwneud hi'n annerbyniol i gosbi plant a phobl ifanc yn gorfforol drwy hybu dewisiadau cadarnhaol heblaw smacio. Bydd yr arolwg hwn yn waelodlin ar gyfer ymgyrch a lansiwyd i hybu negeseuon am rianta cadarnhaol i rieni a gwarcheidwaid plant ifanc. Defnyddir y canfyddiadau hefyd i helpu datblygu polisïau yn y maes hwn.

**Canfyddiadau allweddol**

1.3 Dyma'r canfyddiadau allweddol a ddaeth yn amlwg o ganlyniadau'r arolwg. Dylid nodi bod yr atebion i gwestiynau'r arolwg yn cofnodi agweddau ac ymddygiad *hunangofnodedig* a bod yr holl ganlyniadau wedi'u seilio ar ddata o'r sampl.

***Agweddau tuag at smacio***

- Dywedodd 44% o rieni efallai y buasent yn smacio mewn rhai amgylchiadau.
- Dim ond 4% o rieni oedd yn gyfforddus efo'r syniad, gyda 40% ar ben hynny yn dweud y byddent yn gwneud petai popeth arall yn methu.
- Dywedodd 22% o rieni eu bod nhw wedi smacio eu plentyn yn y chwe mis diwethaf.
- Nododd 25% o rieni eu bod nhw'n meddwl bod smacio weithiau'n angenrheidiol.

***Deall ymddygiad smacio***

1.4 Mae'n ymddangos mai ffactorau amgylchiadol sy'n egluro orau ymddygiad smacio mewn rhieni, yn enwedig:

- mae'r rhiant yn smacio pan fydd popeth arall yn methu.

- mae'r rhiant yn smacio mewn sefyllfaoedd ble maent yn gweld bod y plentyn yn achosi niwed i'w hun.
- mae'r rhiant yn smacio mewn sefyllfaoedd ble maent yn gweld bod ymddygiad y plentyn tu hwnt i reolaeth.

1.5 Dywedodd rai rhieni hefyd eu bod nhw'n smacio i atal plant eraill rhag cael niwed ac fel cosb am ymddygiad drwg.

1.6 Islaw'r ffactorau amgylchiadol hyn y mae dau ffactor allweddol sy'n ymwneud â'r rhiant unigol:

- nid yw'r rhiant yn teimlo bod cyngor ar rianta wedi bod yn ddefnyddiol (ble maent wedi cael gafael ar gyngor).
- mae'r rhiant yn teimlo bod ymddygiad y plentyn yn destun cywilydd.

1.7 Mae tystiolaeth hefyd bod rhieni sy'n teimlo nad oes ganddynt weithiau'r amser na'r egni angenrheidiol i ofalu am eu plant, yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi'u smacio nhw.

1.8 Er hynny, nid oes digon o dystiolaeth i awgrymu bod:

- oedran, rhyw na statws priodasol y rhiant yn gysylltiedig â dweud am smacio.
- lefel amddifadedd yr ardal mae'r rhieni yn byw ynddi, na'u cyrhaeddiad addysgol, yn gysylltiedig â dweud am smacio.
- bodlonrwydd rhieni efo'u hiechyd, eu perthynas na'u bywyd yn gyffredinol, yn gysylltiedig â dweud am smacio.
- barn rhieni ar ymddygiad cyffredinol y plentyn, yn gysylltiedig â dweud am smacio.

***Newid ymddygiad smacio***

- Dywedodd 19% o ymatebwyr a anghytunodd yn gryf fod smacio weithiau'n angenrheidiol a 27% a anghytunodd i ryw raddau, nad oeddent wastad wedi bod o'r farn hon.
- Dywedodd 24% o ymatebwyr a gytunodd yn gryf fod smacio weithiau'n angenrheidiol a 12% a gytunodd i ryw raddau eu bod wedi bod yn llai tueddol o gytuno o'r blaen.

- Roedd canran uwch (63%) o rieni a ddywedodd nad oeddent yn smacio eu plant yn nodi bod cyngor wedi bod yn ddefnyddiol iddynt, o gymharu â'r rheiny sydd yn smacio (47%).[1]

***Ffynonellau cyngor***

- Gwelwyd mai gan ffrindiau neu berthnasau y cafwyd cyngor amlaf, yna gan weithwyr iechyd proffesiynol.
- Pan ofynnwyd iddynt o ble hoffent gael cymorth, roedd mwy o rieni eisiau cael gafael ar gymorth gan teulu (52%) a gweithwyr iechyd proffesiynol (38%) nag o unrhyw ffynhonnell arall.
- Ym mwyafrif yr achosion (70%), rhoddwyd y cymorth hwn wyneb yn wyneb, cafodd 12% gyngor ar y we a chafodd 11% gymorth personol dros y ffôn (a 2% arall o linellau cymorth).
- Pan ofynnwyd iddynt sut orau yr hoffent gael cymorth, wyneb yn wyneb oedd y dewis mwyaf poblogaidd o ddigon (72%), ac yna cymorth personol dros y ffôn (10%).
- Yn ôl rhieni, y rhwystrau mwyaf cyffredin iddynt gael cymorth oedd peidio â gwybod ble i gael cyngor, neu gael cyngor anghyson gan wahanol ffynonellau.
- Nid yw'r rhieni hynny a ddywedodd eu bod nhw wedi smacio yn y chwe mis diwethaf fymryn yn llai tebygol o ddweud eu bod nhw wedi defnyddio technegau rhianta eraill yn ystod y cyfnod hwnnw.

***Newid deddfwriaethol***

- Anghytunodd 51% o ymatebwyr y dylai'r gyfraith adael i rieni smacio eu plant, o gymharu â 34% a gytunodd y dylai (gyda 12% ddim yn cytuno nac yn anghytuno, neu'n ateb 'ddim yn gwybod').
- Cytunodd 47% o ymatebwyr y dylid gwahardd taro plant, hyd yn oed ar ffurf smac, yn llwyr, gyda 42% yn anghytuno y dylai bod gwaharddiad (gyda 11% ddim yn cytuno nac yn anghytuno, neu'n ateb 'ddim yn gwybod').

[1] Dim ond i'r rhieni hynny a ddywedodd eu bod nhw wedi cael rhyw fath o gyngor neu gymorth y mae'r canfyddiad hwn yn berthnasol.

- Teimlodd lai na chweched o rieni (13%) sy'n teimlo'n cyfforddus gyda smacio eu plant a pumed (19%) o'r rheiny sy'n smacio pan fydd popeth arall yn methu, y byddai newid yn y gyfraith yn dylanwadu ar eu hagwedd.

**Casgliad**

1.9 Mae canlyniadau'r arolwg yn rhoi arlliw o agweddau tuag at smacio. Awgrymant fod ffyrdd traddodiadol o gyfiawnhau smacio fel rhan o athroniaeth benodol ar rianta efallai yn llai pwysig yn y Gymru fodern, a dywed mwyafrif y rhieni eu bod nhw'n meddwl bod smacio yn ddiangen. At ei gilydd, ni all proffiliau demograffig taclus esbonio agweddau smacio yn yr astudiaeth hon, ac ymddengys bod mwyafrif y rhieni sy'n smacio yn gwneud hynny o'u hanfodd, a phan fydd popeth arall wedi methu.  Gall cywilydd fod yn bwysig mewn amgylchiadau fel hyn, yn ogystal â phryder am y plentyn yn cael niwed a cholli rheolaeth ar sefyllfaoedd. Gallai'r 'sŵn' a grëir o'r llu o ffynonellau cyngor sy'n ddigon didwyll, ond sydd rhyw ffordd yn gwrth-ddweud ei gilydd - a'r rheiny cynnwys teulu a ffrindiau - fod yn dda i ddim i rieni. Efallai dyma pam yr hoffai llawer o rieni, yn ddelfrydol, gael cyngor gan weithwyr iechyd proffesiynol. Mae agweddau tuag at smacio yn gallu newid, ac yn newid, a cheir arwyddion y gallai mwy o bobl gefnogi newid deddfwriaethol na'i wrthwynebu, er nad oes yma farn y mwyafrif ar hyn o bryd